

## **POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

### **Cyflwyniad**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn derm sy'n berthnasol i ystod o offer amlgyfrwng ar-lein sy'n cael eu defnyddio ar gyfer creu cynnwys a chyfathrebu dwy ffordd. Gellir eu defnyddio trwy ffôn symudol, cyfrifiadur, gliniadur, tabled neu deledu. Mae pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn rhad ac am ddim a gellir eu sefydlu'n gyflym ac yn hawdd o unrhyw dudalen rhyngrwyd.

### **1. Datganiad polisi**

- a) Bwriad y polisi hwn yw helpu gweithwyr ac aelodau etholedig i wneud penderfyniadau priodol ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, fforymau, byrddau negeseuon, blogiau neu sylwadau ar wefannau.
- b) Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r safonau y mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ac aelodau etholedig arsylwi wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, yr amgylchiadau lle bydd defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn cael ei fonitro a'r camau a gymerir mewn perthynas â thorri'r polisi hwn.

### **2. Rhwymedigaeth y polisi**

- a) Disgwylir i bob gweithiwr ac aelod etholedig gydymffurfio â'r polisi hwn bob amser i ddiogelu preifatrwydd, cyfrinachedd a buddiannau'r Cyngor.
- b) Gellir delio â thorri'r polisi hwn gan weithwyr dan ein Gweithdrefn Ddisgyblu ac, mewn achosion difrifol, gellir ei drin fel camymddygiad difrifol sy'n arwain at ddiswyddiad.
- c) Ymdrinnir â thorri'r polisi hwn gan aelodau etholedig o dan y Cod Ymddygiad Aelodau.

### **3. Cyfrifoldeb am weithredu'r polisi**

- a) Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r polisi hwn yn effeithiol.
- b) Mae'r Clerc yn gyfrifol am fonitro ac adolygu gweithrediad y polisi hwn a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i leihau'r peryglon i'n gwaith.
- c) Dylai pob weithiwr ac aelod etholedig sicrhau eu bod yn cymryd yr amser i ddarllen a deall y polisi hwn. Dylid hysbysu'r Clerc neu Gadeirydd y Cyngor os oes unrhyw un yn torri'r polisi hwn.
- d) Dylid cyfeirio cwestiynau ynghylch cynnwys neu gymhwyso'r polisi hwn at y Clerc.

### **4. Defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn enw'r cyngor**

- a) Mae'r Clerc ac aelodau etholedig gyda'r hawl i bostio deunydd ar wefan cyfryngau cymdeithasol yn enw'r Cyngor ac ar ei ran yn unol â rheolau a chwmpas y polisi hwn.
- b) Os nad ydych yn siŵr a yw eich sylwadau'n briodol peidiwch â'u postio nes i chi wirio gyda'r Clerc / Cadeirydd.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## 5. Defnyddio cyfryngau cymdeithasol

- a) Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y rhyngwrth wrth lunio meddwl y cyhoedd am y Cyngor a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i'r gymuned. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ein gweithwyr ac aelodau etholedig yn ymuno â nhw ac yn helpu i lunio sgwrs a chyfeiriad cymunedol trwy ryngweithio mewn cyfryngau cymdeithasol.
- b) Cyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw fater a allai effeithio ar fuddiannau'r Cyngor, rhaid i chi ddarllen a deall y polisi hwn a rhaid i weithwyr gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw i wneud hynny gan y Clerc.

## 6. Rheolau ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol

Pryd bynnag y caniateir i chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn unol â'r polisi hwn, rhaid i chi lynu wrth y rheolau cyffredinol canlynol:

- a) Peidiwch â llwytho, postio neu anfon dolen at unrhyw gamdriniaeth, anwedus, gwahaniaethol, aflonyddu, difriol neu ddifenwol.
- b) Unrhyw weithiwr / aelod etholedig sy'n teimlo eu bod wedi cael eu harasio neu eu bwlio, neu eu troseddu gan ddeunydd sy'n cael ei bostio neu ei lwytho i fyny gan gydweithiwr ar wefan cyfryngau cymdeithasol hysbysu'r Clerc / Cadeirydd.
- c) Peidiwch byth â datgelu unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif, personol preifat neu gyfrinachol. Os ydych chi'n ansicr a yw'r wybodaeth yr hoffech ei rannu yn dod o fewn un o'r categorïau hyn, dylech drafod hyn gyda'r Clerc / Cadeirydd.
- d) Peidiwch â llwytho, cyflwyno neu anfon unrhyw gynnwys sy'n perthyn i drydydd parti oni bai bod gennych ganiatâd y trydydd parti hwnnw.
- e) Cyn i chi gynnwys dolen i wefan trydydd parti, gwiriwch fod unrhyw delerau ac amodau'r wefan honno yn caniatáu i chi gysylltu â hi.
- f) Wrth ddefnyddio unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi ddarllen a chydymffurfio gyda'i thelerau defnyddio.
- g) Bod yn onest ac agored, ond cofiwch am yr effaith y gallai eich cyfraniad ei wneud i farn pobl o'r Cyngor.
- h) Rydych chi'n bersonol gyfrifol am y cynnwys rydych chi'n ei chyhoeddi i'r cyfryngau cymdeithasol.
- i) Peidiwch â chynyddu trafodaethau gwresog, ceisiwch fod yn gymesur, parchus a dyfynnwch ffeithiau i ostwng y tymheredd a chywiro cam-gynrychioli.
- j) Peidiwch â thrafod cydweithwyr heb eu cymeradwyaeth ymlaen llaw.
- k) Ystyriwch breifatrwydd pobl bob tro ac osgoi trafod pynciau a all fod bod yn ymfflamychol e.e. gwleidyddiaeth a chrefydd. Cofiwch, er ei fod yn dderbyniol i wneud pwyntiau gwleidyddol neu bleidleisio gan eich cyfrif cyfryngau eich hun ni fydd hyn yn cael ei ganiatáu os ydych yn gwneud sylwadau arno ar ran y Cyngor.
- l) Osgoi cyhoeddi eich manylion cyswllt lle gellir cael mynediad atynt a chael eu defnyddio gan bobl nad oeddech yn bwriadu eu gweld, a byth yn cyhoeddi manylion cyswllt unrhyw un arall.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## 7. **Monitro defnydd gwefannau cyfryngau cymdeithasol**

- a) Dylai gweithwyr ac aelodau etholedig fod yn ymwybodol y gellid monitro unrhyw ddefnydd o wefannau cyfryngau cymdeithasol (p'un a gânt eu defnyddio at ddibenion y Cyngor ai peidio) a, lle canfyddir torri'r polisi hwn, gellir cymryd camau yn erbyn gweithwyr o dan ein 'Gweithdrefn Ddisgyblu a Chynghorwyr' o dan y Cod Ymddygiad.
- b) Gall camddefnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol, mewn rhai amgylchiadau, fod yn drosedd neu fel arall yn achosi atebolrwydd cyfreithiol yn eich erbyn chi a'r Cyngor.
- c) Yn benodol, mae'n debyg y bydd achos difrifol o lwytho, postio ymlaen neu bostio i unrhyw un o'r mathau canlynol o ddeunydd ar wefan cyfryngau cymdeithasol, boed mewn gallu proffesiynol neu bersonol, yn golygu camymddwyn difrifol / torri Cod Ymddygiad (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):
  - deunydd pornograffig (hynny yw, ysgrifennu, lluniau, ffilmiau a chlipiau fideo o natur rywiol eglur neu gynhyrfus);
  - datganiad ffug a difenwol am unrhyw berson neu sefydliad;
  - deunydd sy'n dramgwyddus, yn anwedus, yn droseddol, yn wahaniaethol, yn anghyfreithlon neu'n achosi cywilydd i'r Cyngor ein cynghorwyr neu ein gweithwyr;
  - gwybodaeth gyfrinachol am y cyngor neu unrhyw un arall;
  - unrhyw ddatganiad arall sy'n debygol o greu unrhyw atebolrwydd (boed yn droseddol neu'n sifil, boed i chi neu'r sefydliad); neu
  - deunydd yn torri hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol eraill, neu sy'n gwadu preifatrwydd unrhyw berson.

Bydd unrhyw gamau o'r fath yn cael sylw o dan y Weithdrefn Ddisgyblu / Cod Ymddygiad.

- d) Lle canfyddir bod tystiolaeth o gamddefnydd gall y Cyngor ymgymryd ag ymchwiliad manylach yn ymwneud ag archwilio a datgelu cofnodion monitro i'r rhai a enwebwyd i ymgymryd â'r ymchwiliad ac unrhyw dystion neu reolwyr sy'n ymwneud â'r ymchwiliad. Os oes angen, rhoddir gwybodaeth o'r fath i'r heddlu mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol.
- e) Os byddwch yn sylwi ar unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol gan weithwyr / aelodau etholedig eraill yn groes i'r polisi hwn, rhowch wybod i'r Clerc / Cadeirydd yn unol â Pholisi Chwythwr Chwiban y Cyngor.

## 8. **Monitro ac adolygu'r polisi hwn**

Bydd y Cyngor yn gyfrifol am adolygu'r polisi hwn yn flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â gofynion cyfreithiol ac yn adlewyrchu'r arfer gorau.

Dyddiad adolygu a mabwysiadu: 30 Medi 2024